

Pice ar y maen / Teisennau cri



Mae'r Cymry wedi bod yn coginio ar faen neu radell ers canrifoedd. Y ffordd orau o wneud pice da yw eu coginio'n sydyn ar y ddwy ochr fel eu bod yn dal yn feddal yn y canol. Ond gofalwch peidio â'u llosgi!

Digon i 15-18 | Paratoi 15 munud | Coginio 10 munud

Cynhwysion

225g o flawd codi
pinsied o halen
llond llwy de o sbeisys cymysg
110g o fenyn, lard neu fargarîn
75g o siwgrwr gwyn man
75g o gyrens a syltanas yn gymysg
ŵy mawr wedi'i guro
croen hanner lemwn (dewisol)

Dull

- 01 Rhidyllwch y blawd, yr halen a'r sbeisys i bowlen. Rhwbiwch y menyn neu'r margarîn i'r cynhwysion sych nes eu bod fel briwsion bara mân.
- 02 Ychwanegwch y siwgrwr, y croen lemwn a'r ffrwythau sych. Arllwyswch yr ŵy a chymysgu'r cyfan yn does.
- 03 Ysgeintiwch dipyn o flawd ar fwrdd a rholio neu wasgu'r toes nes ei fod tua 5mm o drwch. Torrwch ef yn gylchoedd â thorrrwr 4-5cm, neu gallwch ei dorri'n sgwariau (ni fydd raid i chi ei ail-rollo dro ar ôl tro os y gwnewch hynny).
- 04 Craswch y pice ar radell weddol boeth, gan eu troi unwaith, nes y byddant yn euraidd ar y ddwy ochr ond yn dal ychydig yn feddal yn y canol.
- 05 Taenwch siwgrwr gwyn mân drostynt tra byddant yn dal yn boeth. Os nad oes gennych radell, gallwch ddefnyddio padell ffrio drom wedi'i hiro ag ychydig o fenyn.